Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar Ionawr 18 2018 yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Fred Jones, Dylan Davies, Huw Griffith, Lyn Davies, y Cynghorydd Rowland Rees Evans a'r clerc

Ymddiheuriadau : Islwyn Jones, Margaret Lewis, Dai Jones.

Darllenwyd Cofnodion cyfarfod mis Tachwedd ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

<u>Materion yn codi</u>

1 Bethel – dim gwybodaeth bellach.
2 Tafarn unnos Derbyniwyd rhagor o fanylion, sef mai chwilio am leoliad yn unig oedd y grŵp, ac y byddent hwy'n gwneud y trefniadau i gyd. Gofynnwyd i'r clerc ymateb i ddweud y dylent gysylltu â Phwyllgor y Neuadd, gan nodi bod rheol 'dim alcohol' yn y Neuadd.

<u>Gohebiaeth</u>

1 Derbyniwyd Clercs and Councils Direct: Posteri Ben Lake i'w harddangos: gwybodaeth am bwyllgor ardal Ceredigion Un Llais Cymru mis Ionawr.
2 Ymgynghoriadau ynglŷn â Thrawsnewid Gwasanaethau Clinigol: Rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys: ariannu'r heddlu allan o'r trethi: Y Gyfraith Cynllunio yng Nghymru
3 Adroddiadau trwy e-bost ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad: arolwg o drefniadau etholiadol Ceredigion. (Sylwyd na chynigir unrhyw newidiadau i'r etholaeth hon): adolygu Cynghorau Cymuned a Thref
4 HMRC yn rhoi rhybudd o newidiadau i'r ffurflen hawlio TAW. Mwy o wybodaeth i ddilyn.
e-byst –

- Natural Resources Wales yn cynnig arian ar gyfer prosiectau i wella'r amgylchedd .
- Health, Social Care and Sport committee yn gofyn a oes rhywbeth yn cael ei drefnu yn yr ardal i gwrdd â phroblem unigrwydd i'r henoed. Nodwyd y cymdeithasau sy'n cwrdd yn y pentref a'r ffaith fod Cymdogaeth Dda yn ffynnu yn y gymuned.
- Caru Gwenyn. Cynllun i hyrwyddo gwenyn a pheilliaid eraill.
- Garddwest Palas Buckingham – cynnig 30 lle i Gadeiryddion presennol
- Trefniant i gasglu eitemau bach trydanol i'w hail-gylchu
- Ymgynghoriad ar y cynigion i leihau troseddu yn y sector gwastraff a

chyflwyno cosb benodedig ar droseddwyr.
- Rheoliad Diogelu Data. Cyfreithwyr wrthi'n paratoi canllawiau ar gyfer Cynghorau a gwybodaeth ar sut i gael Data Protection Officer os nad oes un gan y Cyngor. Bydd y rheoliad yn dod i rym ar 25ain Mai 2018.

<u>Materion ariannol</u>

1 Llythr oddi wrth y Cyngor Sir yn dweud bod costau etholiad o £162.30 yn ddyledus gan y Cyngor. Yn wyneb hyn penderfynwyd codi swm y praesept a hawlir ar gyfer 2018/19 i £3012. (£2850 y llynedd). Dychwelwyd ffurflen y Praesept, a nodi y bydd tri rhandaliad sef 25 Ebrill, 31 Gorffennaf, a 30 Hydref
2 Y swm ar gyfer taliadau Section 137 yn codi o £7.57 y pen i £7.86 ar gyfer 2018/19
3 Eisteddfod Llangollen a changen Samariaid Aberystwyth yn gofyn am gefnogaeth ariannol. Y ddau i'w trafod gyda cheisiadau eraill y mis nesaf.
4 Cefnogaeth ariannol i Gyngerdd Dathlu Dau-ganmlwyddiant Ohio. Mynegwyd cefnogaeth i'r syniad a gofyn i'r clerc geisio gwybodaeth am gyfraniadau Cynghorau eraill cyn penderfynu ar y swm.
5 Awdurdodwyd Talu'r Cyngor Sir £30.84 am oleuadau stryd dros nos, Scottish Power £42.71 am drydan, a £200.00 cyflog y clerc ddiwedd y mis.

Cyfrif yn y banc – Ar ôl talu'r symiau uchod fe fydd £1708.79 ar ôl.
Heb dderbyn cyfriflen gyfredol am gyfrif rhif 2.
Cysylltwyd eto ynglŷn a Llety'r Bugail Fund a chael addewid y byddai'r £2500 blynyddol yn cael ei dalu ar un waith. Gofynnwyd am gadw mewn cysylltiad â hwy ynglŷn â'r defnydd a wneir o'r arian.

Dyddiad y cyfarfod nesaf Chwefror 15 2018

Yn ddiweddarach newidiwyd hwn i Chwefror 16